**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-MDMFWL-11056-24

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru

10 Rhagfyr 2024

Annwyl Lywydd

**Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024 o dan adrannau 24(1)(b) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf TTT 2017"). Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Rhagfyr 2024. Gweler ynghlwm gopi o'r offeryn statudol. Unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru, rwy'n bwriadu ei osod ar 10 Rhagfyr 2024, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.

Yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf TTT 2017, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 27 Ionawr 2025 er mwyn iddo barhau mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, deallaf fod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad. Efallai y bydd o gymorth gwybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl lawn ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 21 Ionawr 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.